Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig y Santes Anne
Ffordd y Tywysog Siarl
Wrecsam
LL13 8TH

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig y Santes Anne

Mae Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Anne ym Mharc Caia, ar gyrion Wrecsam, yn awdurdod lleol Wrecsam. Mae 185 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr ar hyn o bryd, gan gynnwys 17 o ddisgyblion rhan-amser yn y dosbarth meithrin. Mae gan yr ysgol wyth dosbarth un oedran, a dosbarth sydd â darpariaeth adnoddau ar gyfer saith disgybl ag anawsterau dysgu cymedrol.

Cyfartaledd treigl tair blynedd disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yw tua 32%, sydd gryn dipyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 25% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn ychydig uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae tua 41% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, ac nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae tua 11% o ddisgyblion o Gymuned y Teithwyr.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2013. Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Medi 2015.

Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan fydd yr ysgol yn un ag iddi gymeriad crefyddol. Yn hytrach, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r corff llywodraethol drefnu bod addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Mae staff yn Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Anne yn rhoi pwys cryf ar sicrhau lles disgyblion, a darparu lefel uchel o gymorth ac arweiniad. Ceir awyrgylch eithriadol o gynnes a gofalgar yn yr ysgol, ac mae hyn yn helpu disgyblion i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae'r pennaeth wedi llwyddo i ddatblygu ethos cydweithredol ymhlith staff. Mae'n rhannu ei weledigaeth a'i dyheadau ar gyfer gwella gyda'r holl randdeiliaid yn effeithiol. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dod yn fathemategwyr medrus iawn, sy'n mwynhau datrys problemau. Maent yn datblygu medrau siarad a gwrando effeithiol, yn aml o fannau cychwyn isel, ac yn gwneud cynnydd cryf â'u darllen.

Yn gyffredinol, mae staff yn cynllunio gweithgareddau dysgu dan do ac awyr agored sy'n ysgogol a difyr, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn rhoi ystyriaeth dda i syniadau disgyblion. Mae hyn yn helpu disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol, gwydn a hyderus.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a amlygwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Sicrhau bod addysgu a phrofiadau dysgu yn bodloni anghenion pob un o'r disgyblion

A3 Monitro effaith cynllunio gwelliant yr ysgol yn drylwyr, a rhannu arfer dda yn rheolaidd ar draws yr ysgol

A4 Datblygu cyfleoedd i bob un o'r disgyblion wneud dewisiadau ynglŷn â beth maent yn ei ddysgu, a sut

A5 Gwella presenoldeb disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Pan fyddant yn dechrau yn y dosbarth meithrin, mae medrau disgyblion yn amrywio'n sylweddol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol a'r rheiny yn y ddarpariaeth adnoddau yn gwneud cynnydd gwerth chweil tuag at eu nodau personol. Mae disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn. Mae cynnydd disgyblion mwy abl yn amrywio gormod, gan nad yw athrawon weithiau'n eu herio'n ddigon da.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siaradwyr hyderus. O oedran cynnar, maent yn mwynhau siarad am eu dysgu gydag ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ac yn gwerthfawrogi syniadau a barn ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio 'partneriaid siarad' yn llwyddiannus iawn i symud ymlaen pan fyddant yn gweld darn o waith yn anodd.

Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso strategaethau ffoneg yn dda wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae llawer o ddisgyblion mwy abl yn darllen gyda lefelau cynyddol o rugldｅr a mynegiant, ac yn addasu eu llais i ddangos bod cymeriad yn siarad. Mae bron pob un o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio ystod eang o strategaethau darllen yn dda. Maent yn datgodio geiriau anghyfarwydd ac yn llithrddarllen yn gyflym i ragweld beth fydd yn digwydd nesaf. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dethol gwybodaeth o lyfrau a gwefannau yn effeithiol i gefnogi eu hysgrifennu ffeithiol sy'n gysylltiedig â thestunau.

Mae llawer o ddisgyblion yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn mwynhau arbrofi â chreu marciau, ac yn creu siapiau llythrennau a phatrymau yn y tywod yn frwd. Mae llawer ohonynt yn ceisio ysgrifennu eu henwau mewn sialc ar y maes chwarae. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trefnu eu syniadau'n dda, ac yn cyflwyno darnau difyr o ysgrifennu estynedig. Er enghraifft, defnyddiant ansoddeiriau diddorol i fywiogi eu stori am y morfil a'r falwen.

Wrth iddynt symud trwy gyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn strwythuro eu hysgrifennu'n briodol at wahanol ddibenion. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio cymariaethau ac ansoddeiriau i ychwanegu diddordeb at eu cerddi, ac yn cyflwyno dadl gytbwys ar fanteision ac anfanteision ynni adnewyddadwy. Mae llawer o ddisgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu i safon dda. Maent yn defnyddio paragraffau ac yn ailddrafftio eu gwaith yn llwyddiannus i wneud gwelliannau. Ym Mlwyddyn 6, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau'n dda wrth ysgrifennu disgrifiad llawn cyffro o ysbryd Banquo yn ymddangos yng ngwledd Macbeth, er enghraifft. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn cyflwyno nac yn atalnodi eu gwaith yn ddigon da, wrth ysgrifennu'n annibynnol yn estynedig.

Mae llawer o ddisgyblion yn y ddarpariaeth adnoddau yn siaradwyr hyderus. Mae ychydig ohonynt yn darllen eu gwaith eu hunain yn ôl ac yn dangos balchder a brwdfrydedd wrth siarad am eu gwaith. Defnyddiant offer electronig i recordio ei gilydd yn siarad.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau Cymraeg. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer ohonynt yn ymateb yn frwdfrydig i gyfarwyddiadau a roddir gan oedolion. Maent yn mwynhau siarad am sut maent yn teimlo, a sut mae’r tywydd. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cynnal sgwrs yn hyderus am eu hoffterau a’u casbethau, eu hoff fwyd a’r clybiau y maent yn eu mynychu. Mae llawer ohonynt yn darllen testunau syml gyda dealltwriaeth gynyddol ac atalnodi cywir ar y cyfan. Maent yn ateb cwestiynau sylfaenol am eu llyfr darllen yn gywir.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu gwybodaeth gadarn am gysyniadau mathemategol, ac maent yn fathemategwyr hyderus erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion iau yn dangos eu dealltwriaeth o batrymau ailadrodd ac adnabod rhifau’n gynnar yn dda. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn pwyso gwrthrychau’n gywir wrth ymchwilio i bwysau parseli. Mae disgyblion hŷn yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus i ddatrys problemau, er enghraifft wrth gofnodi pellterau y mae disgyblion yn eu teithio ar wyliau. Maent yn ceisio darganfod pwy sydd wedi teithio bellaf, a’r gwahaniaeth rhwng y daith fyrraf a’r hiraf, yn fedrus.

Tuag at ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau mathemategol yn y pen ac yn ysgrifenedig yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cyfrifiadau ysgrifenedig yn annibynnol ac yn gywir, ac yn gwirio ffeithiau rhif gwir neu anwir yn gyflym. Mae bron pob un ohonynt yn rhoi esboniadau synhwyrol ar gyfer eu hatebion. Dangosant ddealltwriaeth gadarn o’r perthnasoedd rhwng gweithrediadau, fel lluosi a rhannu, canrannau a ffracsiynau. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson dda ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gasglu a chofnodi tymereddau yn ystod gwahanol fisoedd fel rhan o’u gwaith gwyddoniaeth, a chofnodi canlyniadau ar graff llinell.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus. Mae llawer ohonynt yn creu a lanlwytho cynnwys yn annibynnol i blatfform ar-lein, ac yn ychwanegu pytiau fideo byr. Defnyddiant gemau a chymwysiadau ar lechen gyfrifiadurol yn llwyddiannus i gefnogi datblygiad eu medrau mathemategol, ffoneg a sillafu. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau prosesu geiriau’n dda i ymchwilio a chyflwyno gwybodaeth fel rhan o’u gwaith testun. Mae llawer ohonynt yn defnyddio cronfa ddata electronig yn gymwys i fewnbynnu gwybodaeth cyfrifiad ac yn dethol a dadansoddi data o hyn yn fedrus.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel a hapus yn yr ysgol, ac mae ganddynt wybodaeth gadarn am sut i aros yn ddiogel ar-lein. Mae bron pob un o’r disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn rheolaidd, gan gynnwys defnyddio campfa leol i gadw’n heini. Mae bron pob un o’r disgyblion yn mwynhau mynychu ystod eang o glybiau ar ôl yr ysgol, sy’n cyfrannu’n gadarnhaol at eu lles a’u ffitrwydd.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos parch at bobl eraill ac yn ymddwyn yn dda mewn gwersi, ac wrth symud o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais a chroesawgar ag ymwelwyr, ac yn rhannu eu profiadau dysgu yn frwdfrydig. Mae disgyblion yn gweithio gyda’i gilydd o’u gwirfodd ac yn cydweithio’n llwyddiannus.

Mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i staff ac maent yn hapus i fynd atynt i drafod unrhyw ofidiau neu bryderon. Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i'w pryderon, ac mae disgyblion yn cymryd rhan mewn trafodaethau am ddefnyddio ac adnabod ymddygiadau priodol yn aeddfed.

Pan fydd disgyblion yn gweithio'n annibynnol, mae bron pob un ohonynt yn gwneud dewisiadau synhwyrol ac yn dyfalbarhau'n dda. Mae llawer ohonynt yn dangos lefelau da o ddyfalbarhad a gwydnwch. Mae gan ddisgyblion hŷn ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o'u targedau ar gyfer gwella, a'r strategaethau y byddent yn eu defnyddio i gyflawni'r rhain.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â rolau arwain o'u gwirfodd, ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r Cyngor Eco gweithgar wedi derbyn gwobr genedlaethol, ac mae'r disgyblion yn falch iawn o'u cyfraniadau tuag at gyflawni hyn. Fodd bynnag, mae gallu disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol yn amrywio gormod. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â beth maent eisiau ei ddysgu, a sut, yn ddigon aml.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod am y byd o'u cwmpas, ac yn ymwybodol o'r modd y caiff eu gweithredoedd effaith ar yr amgylchedd. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn siarad yn hyderus ac yn wybodus am yr ymchwil a wnaethant ar lygredd. Wedyn, fe wnaethant gyflwyno gwasanaeth i weddill yr ysgol a helpodd bob un o'r disgyblion i ddeall sut gallent weithio gyda'i gilydd i leihau effaith llygredd ar yr amgylchedd.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi bod yn gyson is na'r rheiny mewn ysgolion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i ystod o fentrau, fel gwobrau. Fodd bynnag, mae presenoldeb achlysurol ychydig o ddisgyblion o grwpiau penodol yn cael effaith negyddol ar godi cyfraddau presenoldeb yn gyffredinol.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynllunio a chyflwyno ystod eang o brofiadau dysgu sy'n ymgysylltu â'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys teithiau pwrpasol i wella gwaith testun disgyblion. Er enghraifft, galluogodd ymweliad â pharc gwledig lleol ddisgyblion hŷn i ddeall bod angen gofalu am yr amgylchedd er mwyn annog mwy o fywyd gwyllt. Mae gweithdai rhyngweithiol, gan gynnwys cyfleoedd i ddisgyblion Blwyddyn 2 wisgo i fyny ac ail-greu bywyd fel plant yn Oes Victoria, yn dod ag astudiaethau disgyblion yn fyw ac yn eu helpu i ddeall sut beth oedd yr ysgol yn ystod y cyfnod hwnnw.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn sefydlu perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael gofal a'u gwerthfawrogi. Mae hyn yn eu hannog i ymroi i'w dysgu gyda brwdfrydedd a hyder. Yn y cyfnod sylfaen, mae athrawon yn cynllunio ac yn darparu cydbwysedd da ar y cyfan rhwng dysgu wedi'i arwain gan oedolion a dysgu wedi'i ysgogi gan y plentyn. Mae staff yn cynllunio'n ofalus ar gyfer gwneud defnydd ymarferol a difyr o'r holl feysydd i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chreadigol disgyblion yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o staff yn gwybod pryd i sefyll yn ôl i alluogi disgyblion i roi cynnig ar weithgareddau newydd a mentro'n ofalus yn eu dysgu. O ganlyniad,

mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau dysgu annibynnol a datrys problemau gwerthfawr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae 'waliau gweithio' yn darparu sbardunau, sgaffaldiau ac enghreifftiau defnyddiol o ddysgu blaenorol disgyblion. Mae disgyblion yn cyfeirio atynt yn rheolaidd i'w helpu yn eu tasgau. Mae hyn yn cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i weithio'n fwy annibynnol a dyfalbarhau pan fyddant yn wynebu heriau. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn hyrwyddo medrau dysgu annibynnol disgyblion yn rheolaidd ac yn effeithiol. Fodd bynnag, mewn ychydig o ddosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 2, mae profiadau dysgu yn cynnwys gormod o gyfarwyddyd gan oedolyn, ac maent yn rhy ragnodol.

Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae dysgu'n symud ar gyflymdra da. Mae staff yn defnyddio technegau holi'n dda i asesu dealltwriaeth disgyblion a symud eu dysgu ymlaen. Mae staff cymorth yn gweithio'n bwrpasol mewn gwersi a grwpiau ymyrraeth i gynorthwyo disgyblion targedig yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion ar ansawdd eu gwaith. Mae disgyblion yn ymateb yn dda i'r sylwadau hyn, er enghraifft trwy ddefnyddio eu 'pennau ysgrifennu llathru porffor' i ailddrafftio adrannau o'u hysgrifennu i'w wneud yn fwy diddorol i'r darllenydd. Mae llawer o athrawon yn defnyddio marcio cyfoedion a meini prawf llwyddiant yn bwrpasol i annog disgyblion i asesu eu gwaith eu hunain, a gwaith disgyblion eraill yn adeiladol. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o'r hyn y maent yn ei wneud yn dda a pha agweddau ar eu gwaith y mae angen eu gwella.

Mae ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn systematig ac yn raddol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn gwahanol gyd-destunau. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, nid yw lleiafrif o athrawon yn gweddu tasgau'n ddigon da i allu disgyblion. O ganlyniad, nid yw gweithgareddau bob amser yn darparu digon o gyfle i ddisgyblion ddatblygu eu medrau sylfaenol yn unol â'u targedau a'u galluoedd unigol.

Mae athrawon yn gwneud defnydd da o adnoddau sydd ar gael, ac yn cynllunio'n briodol i alluogi disgyblion i ddatblygu ystod fuddiol o fedrau TGCh. Ceir cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddysgu am eu treftadaeth Gymreig. Mae'r rhain yn cynnwys gwneud llwyau caru Cymreig wrth ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen, a gwrando ar delynor o Gymru. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn effeithiol. Caiff disgyblion gyfleoedd da i ddatblygu eu medrau yn eu gwersi ac mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf ohonynt yn frwdfrydig iawn ynglŷn â dysgu a defnyddio'r Gymraeg.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn amgylchedd gofalgar a chynhwysol lle mae lles staff a disgyblion yn ganolog i'w hethos a'i gwaith. Mae lefel uchel y gofal, y cymorth a'r arweiniad y mae staff yn eu darparu ar gyfer disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn darparu amgylchedd meithringar sy'n magu hyder a hunan-barch disgyblion. Maent yn addysgu disgyblion yn effeithiol am werthoedd pwysig a sut i barchu a gwerthfawrogi pobl eraill.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rheiny yn y ddarpariaeth adnoddau, yn dda. Mae athrawon yn

dadansoddi ystod o wybodaeth am ddisgyblion yn yr ysgol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon ac ystod o ddata yn effeithiol i godi safonau. Mae hyn wedi arwain at welliannau buddiol o ran codi medrau llafaredd, darllen a rhesymu mathemategol disgyblion. Cynhelir adolygiadau disgyblion bob tymor, ac mae staff yn defnyddio'r wybodaeth o'r rhain yn dda i gynllunio a chyflwyno ystod gynhwysfawr o gymorth ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf ag asiantaethau allanol, gan gynnwys y gwasanaeth Saesneg fel iaith ychwanegol a chymorth i deithwyr. Mae athrawon a staff cymorth arbenigol yn defnyddio cyngor gan arbenigwyr i lunio targedau perthnasol yng nghynlluniau dysgu unigol disgyblion. Mae'r cynlluniau hyn yn drylwyr ac yn rhoi ystyriaeth dda i lais y plentyn, a barn rhieni.

Mae'r ysgol yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â rhieni. Mae athrawon yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion yn ystod nosweithiau rhieni bob tymor, ac mewn adroddiad ysgrifenedig llawn gwybodaeth ar ddiwedd blwyddyn. Mae staff yn darparu arweiniad ar sut gall rhieni gynorthwyo eu plentyn gartref. O ganlyniad, mae rhieni'n teimlo y cânt eu hysbysu'n dda am gyflawniadau eu plant, ac maent yn werthfawrogol o barodrwydd yr ysgol i ymgysylltu â nhw, a chynnig cymorth pan fydd angen.

Pan roddir cyfleoedd addas i ddisgyblion gyfrannu syniadau at eu profiadau dysgu bob dydd, maent yn ymateb i'r her yn frwdfrydig. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn gyson dda ar draws yr ysgol, ac nid yw athrawon yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut. O ganlyniad, nid yw lleiafrif ohonynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar weithgareddau dysgu.

Mae'r ysgol wedi rhoi ystod eang o fentrau ar waith i wella prydlondeb a phresenoldeb, er enghraifft gwobrau a galwadau ffôn uniongyrchol i rieni. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid eir i'r afael â'r rhain yn ddigon trylwyr bob amser o ganlyniad i absenoldeb tymor hir staff. O ganlyniad, mae'n rhy gynnar i farnu'n llawn eu heffaith ar wella presenoldeb dros gyfnod.

Mae'r ysgol yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau bywyd iach. Mae ganddynt drefniadau addas i ddisgyblion ddysgu am gamddefnyddio sylweddau, rhyw a pherthnasoedd, a diogelwch ar-lein. Rhoddir llawer o gyfleoedd i ddisgyblion fod yn weithgar amser egwyl. Er enghraifft, mae llawer ohonynt yn defnyddio'r llwybrau cadw'n heini ac yn chwarae amrywiaeth o gemau pêl yn frwdfrydig.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Fodd bynnag, nododd y tîm arolygu sawl maes pryder yn ymwneud â materion iechyd a diogelwch, a daethant â nhw i sylw uwch arweinwyr a'r corff llywodraethol.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan uwch arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n canolbwyntio'n dda ar fodloni anghenion disgyblion a sicrhau eu lles. Mae hyrwyddo'r gwerthoedd hyn yn glir yn un o gryfderau'r ysgol.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o staff a disgyblion. Caiff ei hymroddiad, ei hymagwedd gefnogol a'i brwdfrydedd effaith gadarnhaol ar symud yr ysgol ymlaen. O ganlyniad, mae morâl staff yn uchel, ac mae'r ysgol yn gymuned ddysgu hapus a llwyddiannus.

Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae hyn yn galluogi llywodraethwyr i wneud cyfraniadau gwerthfawr at drafodaethau ag uwch arweinwyr am ansawdd y ddarpariaeth a'r camau angenrheidiol i godi safonau. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r gymuned leol a'i hanghenion, ac maent yn gweithio'n dda gyda'r pennaeth i gyflawni'r gorau ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd. Mae llywodraethwyr yn darparu arbenigedd proffesiynol i gefnogi meysydd penodol o waith yr ysgol yn effeithiol, er enghraifft i gefnogi rheolaeth ariannol yr ysgol.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod eang o weithgareddau hunanwerthuso i nodi cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu yn effeithiol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae staff yn cynllunio camau gweithredu perthnasol i fynd i'r afael â blaenoriaethau a nodwyd, ac maent yn gweithio'n gydwybodol i'w rhoi ar waith. Er enghraifft, mae cyflwyno systemau a phrosesau trylwyr i ddatblygu'r ffordd y mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm wedi codi safonau yn y maes gwaith hwn.

Mae arweinwyr yn monitro cynnydd tuag at flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella yn briodol. Maent yn nodi meysydd a fydd yn effeithio'n gadarnhaol ar godi safonau a gwella darpariaeth a lles yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn darparu cymorth hynod effeithiol o ran lleferydd ac iaith ar gyfer disgyblion targedig, gan gynnwys y rheiny y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn gwerthuso cynnydd ac effaith ar safonau yn ddigon da, nac yn rhannu arfer dda a nodwyd yn rheolaidd. O bryd i'w gilydd, mae hyn yn arwain at ddisgwyliadau amrywiol o ran yr hyn y gall disgyblion ei gyflawni, ac mae hyn yn arafu cyfradd cynnydd y disgyblion hyn.

Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad a dysgu proffesiynol staff yn effeithiol. Mae targedau yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol ac yn adlewyrchu'r safonau proffesiynol disgwyliedig. Mae staff yn arwain meysydd y cwricwlwm yn wybodus ac yn gwybod eu rolau o fewn yr ysgol yn dda.

Mae pob aelod o'r tîm arweinyddiaeth yn dangos a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol, ac yn cynorthwyo cydweithwyr i wella eu harfer eu hunain yn llwyddiannus. Maent yn cydweithio ag ysgolion eraill a sefydliadau addysg uwch i ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth eu hunain. Er enghraifft, mae hyfforddiant ar ddefnyddio dysgu yn yr awyr agored yn effeithiol yn datblygu medrau annibynnol disgyblion y cyfnod sylfaen yn dda.

Mae arweinwyr yn cynllunio'n bwrpasol i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol at ddysgu Cymraeg, ac maent yn cymhwyso ystod dda o fedrau TGCh i gefnogi eu dysgu. Mae arweinwyr yn defnyddio ac yn monitro cyllideb yr ysgol yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn defnyddio cyllid grant yn fuddiol i gynorthwyo grwpiau bach a gwaith unigol sy'n canolbwyntio'n fanwl ar wella medrau llafaredd a rhifedd disgyblion.

Mae lefelau staffio yn briodol i ddiwallu anghenion dysgwyr ac mae ystafelloedd dosbarth ag adnoddau da yn darparu amgylchedd diddorol i ddysgu ynddo. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'r amgylchedd awyr agored. Er enghraifft, mae disgyblion wedi cymryd rôl weithredol wrth sefydlu gardd weddïo a gofalu am y rhandir.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/04/2019